# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN06 Gwastraff Bwyd

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |

| Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN06<br>Gwastraff Bwyd | |
|---|---|
| **Man creu** | Pob man |
| **CÔD GWASTRAFF EWROPEAIDD (EWC)** | 20-01-01 |
| **Math** | Gwastraff a Reolir |
| **Dull gwaredu** | Didoli i'w ailgylchu |
| **Math o fin/bag** | Blwch gwastraff bwyd |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu gwastraff gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff i bob ffrwd er mwyn cadw swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu i'r lleiafswm. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff wedi'i ddidoli yn y man cychwyn a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Noda'r Rheoliadau fod yn rhaid i ddeunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr gael eu casglu ar wahân os oes angen annog safon uchel o ailgylchu'r deunydd.

Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd sy'n berthnasol i bob busnes yng Nghymru. Mae'r rheoliad hwn yn pennu gofynion mwy llym am wahanu deunyddiau ailgylchu ac mae’n cynnwys eitemau ychwanegol i'w hailgylchu.

Mae'r Brifysgol wedi gosod blychau gwastraff bwyd ym mhob cegin yn y Neuaddau Preswyl, yng ngheginau swyddfeydd staff ym mhob adeilad a thu ôl i'r llenni ym mhob man sy'n gweini bwyd.  Anfonir holl wastraff bwyd y Brifysgol ar gyfer treulio anaerobig sef proses sy'n creu bionwy a biowrtaith

## Eitemau

Ymhlith yr eitemau sy'n gallu cael eu rhoi ym mlychau gwastraff bwyd a biniau gwastraff bwyd y Brifysgol mae;

- croen ffrwythau a llysiau
- gweddillion bwyd wedi’i goginio (e.e. reis, pasta, llysiau)
- bagiau te a gwaddodion coffi
- plisgyn wyau
- bwyd sydd wedi troi/llwydo
- cig a physgod (amrwd ac wedi'i goginio)
- cynhyrchion llaeth
- esgyrn bach hyd at a chan gynnwys sgerbwd cyw iâr.

**Ni ddylid** dan unrhyw amgylchiadau roi

a) pecynnu bwyd y mae modd ei gompostio/bioddiraddiadwy yn y biniau gwastraff bwyd
b) pecynnu plastig yn y biniau gwastraff bwyd

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Mewnol

Mae'r Brifysgol wedi gosod blychau gwastraff bwyd ym mhob cegin yn y Neuaddau Preswyl, yng ngheginau swyddfeydd staff ym mhob adeilad a thu ôl i'r llenni ym mhob man sy'n gweini bwyd. Mae'n rhaid gosod leinwyr y mae modd eu compostio yn y blychau gwastraff bwyd.



Ffigwr 1 - Blwch gwastraff bwyd dan do Prifysgol Abertawe

### Bin Allanol



Ffigwr 2 - Bin contractiwr allanol Prifysgol Abertawe

## Cost Waredu

Mae'r gost waredu wedi'i chynnwys yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag, gall unigolion leihau'r gost a chyfrannu at darged y Brifysgol o

| |
|---|
| arallgyfeirio 63% o'i gwastraff o gael ei droi'n ynni neu ei anfon i safleoedd tirlenwi trwy sicrhau bod yr holl bapur a cherdyn y mae modd eu hailgylchu yn cael eu gwaredu trwy'r biniau pwrpasol. |
| **Labelu**<br><br>Gweler y templed |
| **Am ragor o arweiniad, e-bostiwch Estates-Waste@abertawe.ac.uk** |


gwastraff bwyd
food waste